Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar:

# United World College of the Atlantic Ltd
# Castell Sain Dunwyd
# Sain Dunwyd
# Llanilltud Fawr
# CF61 1WF

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r radd yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu yn ôl yr adran hon yw adrodd am gydymffurfiad â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2016**

## Cyd-destun

Sefydlwyd UWC Atlantic College ym 1962. Mae'r coleg yn aelod sylfaenol o United World Colleges, sef grŵp o 16 o ysgolion a cholegau rhyngwladol annibynnol. Mae'n goleg cydaddysgol preswyl i ddisgyblion o bob cwr o'r byd, wedi'i leoli ar arfordir de Cymru yng Nghastell Sain Dunwyd.

Cafodd UWC Atlantic College ei gofrestru gan Lywodraeth Cymru yn ysgol annibynnol yn Ebrill 2014. Mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd academaidd a chyfleoedd seiliedig ar weithgareddau i fechgyn a merched 14 i 19 oed. Ym Medi 2014, cyflwynodd y coleg Rag-Ddiploma Atlantic (cymhwyster cyn y Fagloriaeth Ryngwladol) i ddisgyblion o 14 oed ymlaen.

Mae disgyblion o oddeutu 85 cenedligrwydd gwahanol yn ymuno â'r ysgol. Ar hyn o bryd, mae 368 o ddisgyblion yn y coleg. Mae'r rhain yn cynnwys 31 disgybl o oedran ysgol statudol. Mae 346 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth ac mae 22 yn dilyn rhaglen y Rhag-Ddiploma. Mae tua 60% o'r disgyblion yn y coleg yn ferched. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddisgyblion preswyl.

Daw disgyblion o amrywiaeth eang o gefndiroedd diwylliannol, ethnig ac economaidd gymdeithasol. Nid yw Saesneg yn iaith gyntaf i oddeutu 60% o ddisgyblion. Mae amrywiaeth eang o ryw 42 famiaith yn cael eu siarad yn yr ysgol, gan gynnwys Hindi, Japaneeg, Rwseg, Tyrceg, Wrdw a Fietnameg. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith.

Mae gan UWC Atlantic College feini prawf mynediad penodol sy'n ystyried gallu ac agwedd disgybl. Mae tua hanner y disgyblion yn cael cynnig lleoedd trwy ysgoloriaeth, a gyflwynir gan y coleg neu gan bwyllgorau dewis rhyngwladol.

Mae tuag 11% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig y coleg ac yn cael cefnogaeth gan y coleg. Nid oes unrhyw ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn y swydd hon ers Tachwedd 2015. Mae pennaeth parhaol wedi'i benodi o Fawrth 2017 ymlaen. Yn ogystal â'r pennaeth dros dro, mae'r tîm arwain yn cynnwys tri is-bennaeth â chyfrifoldebau am y cwricwlwm, gofal bugeiliol a staffio. Mae'r tîm arwain hefyd yn cynnwys pedwar cyfarwyddwr ac mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys datblygiad y coleg, rheoli'r ystâd, y rhaglen allymestyn a phreswylio.

Fel rhan o fudiad United World College, cenhadaeth y coleg yw 'gwneud addysg yn rym i uno pobl, cenhedloedd a diwylliannau er heddwch a dyfodol cynaliadwy'.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Rhagorol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn UWC Atlantic College yn rhagorol oherwydd:

- Mae disgyblion yn cyflawni safonau uchel mewn arholiadau cyhoeddus ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth
- Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau cyfathrebu rhagorol
- Yn gyffredinol, mae cyfran uchel y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd eithriadol o dda gydag amser
- Mae disgyblion yn dangos cryn ddiddordeb, yn dangos ymrwymiad arbennig i holl feysydd bywyd yr ysgol ac yn datblygu'r medrau i ddod yn ddysgwyr annibynnol myfyriol, hunanhyderus ac aeddfed
- Caiff profiadau dysgu effaith hynod gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac maent yn eu paratoi nhw'n arbennig o dda i fwrw ymlaen i gam nesaf eu haddysg neu i waith
- Caiff disgyblion gyfleoedd helaeth i gychwyn, arwain ac ymhél â phrosiectau datblygu lleol a byd-eang sy'n cofleidio gweledigaeth y coleg, sef y dylai disgyblion 'gael eu grymuso i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein byd'
- Mae ansawdd uchel yr addysgu'n cyfrannu'n arbennig o dda at gynnydd a chyflawniad disgyblion
- Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn hynod effeithiol ac mae'n cael effaith sylweddol ar ddeilliannau dysgu a lles disgyblion;
- Mae ethos rhagorol y teulu rhyngwladol yn arbennig o llwyddiannus o ran annog disgyblion i fyfyrio ar eu rôl mewn cymdeithas a sut gall eu gweithredoedd effeithio ar fywyd pobl eraill a thrawsnewid eu bywyd

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth dros dro a'r uwch arweinwyr yn cynnig cyfeiriad clir gan hybu ethos a chenhadaeth United World College, sy'n treiddio i bob rhan o fywyd y coleg, yn dda
- Mae'r corff llywodraethol yn ymroi'n gryf i genhadaeth arbennig United World College ac mae'n hybu gweledigaeth glir ar gyfer y coleg
- Mae'r corff llywodraethol yn monitro pob agwedd ar waith y coleg yn fanwl ac yn darparu lefelau effeithiol o gymorth a her i'r pennaeth dros dro a'r tîm arwain
- Mae prosesau addas i arfarnu effeithiolrwydd gwaith y coleg a chynllunio ar gyfer gwelliant
- Mae ymagwedd y coleg at ddatblygu partneriaethau cydweithredol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn eithriadol, yn enwedig o ran ehangu cyfleoedd a phrofiadau dysgu disgyblion

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgol annibynnol gyrraedd safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd a chysondeb marcio ac asesu ffurfiannol

A2 Gwella cynllunio er mwyn cyfrif am wahanol anghenion dysgu disgyblion yn fwy a monitro cynnydd y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fanylach

A3 Cryfhau'r trefniadau gwella ansawdd, yn enwedig i sicrhau cydberthynas agosach rhwng cynllunio gwella gan gyfadrannau a chan y coleg

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'r cynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
| --- | --- |

**Safonau: Rhagorol**

Mae safonau yn UWC Atlantic College yn uchel tu hwnt. Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad disgyblion yn rhaglen Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol yn arbennig o gadarn o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion eraill yn rhyngwladol ac mae'n cymharu'n dda â'r rhai yn nheulu United World College. Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, tua 35 pwynt oedd y sgôr pwyntiau cyfartalog fesul disgybl o gymharu â'r cyfartaledd byd-eang o oddeutu 30 pwynt. Mae'r radd gyfartalog fesul disgybl wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd byd-eang yn y rhan fwyaf o bynciau.

Yn 2016, roedd tua 94% o ddisgyblion wedi llwyddo yn Niploma'r Fagloriaeth Ryngwladol. Mae'r ffigur hwn ymhell uwchlaw'r gyfradd lwyddo fyd-eang. O'r disgyblion hynny a enillodd Ddiploma'r Fagloriaeth Ryngwladol, cyflawnodd 86% uwchlaw'r cyfartaledd byd-eang, sef 30 pwynt, gydag 20% yn cyflawni dros 40 o bwyntiau. Mae canran y disgyblion y dyfarnwyd graddau uwch iddynt, sef graddau 6 a 7, wedi bod ymhell uwchlaw canran yr ymgeiswyr yn fyd-eang hefyd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn cyflawni'n dda iawn mewn arholiadau TGAU Rhyngwladol (IGCSE). Ym mhob un o'r ddwy flynedd ddiwethaf, cafodd dros bedwar o bob pum cynnig raddau A*-C, gydag oddeutu traean o'r cynigion yn ennill y graddau uchaf, sef graddau A*/A. Mae'r canlyniadau dros dro ar gyfer 2016 a ddarparwyd gan y coleg yn dangos bod tua thri chwarter o ddisgyblion wedi ennill pum gradd A*-C, gan gynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn gyffredinol, mae cyfran uchel y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd hynod o dda gydag amser.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sicr wrth ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae gan lawer o ddisgyblion wybodaeth helaeth a dealltwriaeth ddofn o'r pynciau a'r agweddau a astudiant, y mae eu hamrywiol brofiadau diwylliannol yn dylanwadu arnynt. Mae'r disgyblion hyn yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn dda, er enghraifft i werthfawrogi cysyniadau newydd, datrys problemau, esbonio digwyddiadau a dod i gasgliadau rhesymegol. Mae disgyblion mwy abl yn gofyn cwestiynau gwybodus i ymestyn eu dealltwriaeth ac maent yn barod i herio amgyffredion sydd wedi ennill eu plwyf.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau dysgu. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn datblygu'r medrau i ddod yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus a myfyriol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n astud ar esboniadau athrawon a barn pobl eraill. Gweithiant yn effeithiol mewn parau neu mewn grwpiau bychain, er enghraifft i archwilio, rhannu a datblygiadau eu meddyliau a'u barn. Mae llawer o ddisgyblion yn cefnogi eraill yn dda wrth esbonio cysyniadau a syniadau penodol.

Wrth iddynt symud ymlaen drwy'r coleg, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, gan fynegi eu barn a'u safbwyntiau'n glir a defnyddio geirfa helaeth a soffistigedig yn aml. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth, y maent yn ei chofnodi'n rhesymegol, er enghraifft i grynhoi, arfarnu ac adrodd ar themâu a materion penodol. Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig strwythuredig, darbwyllol a chytbwys, gan ddefnyddio paragraffau trefnus gyda gramadeg ac atalnodi addas. Mewn sawl achos, defnyddiant amrywiaeth gyfoethog o eirfa, gan gynnwys geirfa penodol i bwnc, i fynegi eu syniadau a chreu effaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda. Cyflawnant gyfrifiadau cywir a defnyddiant fedrau mesur effeithiol i weithio wrth raddfa. Wrth gwblhau gwaith cwrs mewn pynciau fel safbwyntiau byd-eang, defnyddiant amrywiaeth o ddata yn dda i amlygu tueddiadau a phatrymau penodol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hyn yn ystyried heriau cenedlaethol a rhyngwladol posibl ac yn dod i gasgliadau cadarn a rhesymedig am bynciau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch dynol, cynaliadwyedd adnoddau a newid yn yr hinsawdd.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda, er enghraifft i greu adroddiadau wedi'u mireinio ar brosesydd geiriau, cynhyrchu graffiau o hafaliadau cwadratig a dylunio cyflwyniadau diddorol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae pob disgybl yn parhau mewn addysg amser-llawn ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion chweched dosbarth yn symud ymlaen i addysg uwch.

**Lles: Rhagorol**

Mae gan ddisgyblion ymdeimlad eithriadol o 'berthyn' i gymuned ehangach United World College. Maent yn aeddfed, yn hunanhyderus ac mae ganddynt lefel uchel o ymwybyddiaeth o'u lles eu hunain ac o effaith eu hymddygiad ar bobl eraill.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac o'r farn y bydd y coleg yn ymdrin ag unrhyw fwlio neu bryderon am eu lles yn effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i fwyta'n iach ac mae llawer yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn rhagorol mewn gwersi ac o gwmpas y coleg. Maent yn gwrtais i'w gilydd, i staff ac i ymwelwyr. Mae disgyblion yn dangos cryn barch a gofal tuag at ei gilydd, yn gwrando ar eu barn ei gilydd â chydymdeimlad ac yn cydweithredu'n dda wrth weithio gyda'i gilydd. Mae'r rhai sydd wedi'u hyfforddi'n wrandawyr cymheiriaid yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at wella lles pobl eraill.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn ymroi'n ddiwyd i'w gwaith ac yn ddysgwyr annibynnol arbennig o effeithiol. Mae cyfradd bresenoldeb gyffredinol disgyblion yn eithriadol o uchel.

Mae medrau cymdeithasol a bywyd disgyblion yn hynod ddatblygedig. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau arwyddocaol at fywyd yn y gymuned leol ac ehangach, er enghraifft fel rhan o'r tîm achub bywydau ar draeth Ogwr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd niferus i arwain neu fod yn gynrychiolydd un o grwpiau niferus y coleg, gan gynnwys y cyngor heddwch a grŵp y cwricwlwm. Mae aelodau'r grwpiau hyn yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at fywyd y coleg ac mae eu safbwyntiau wedi dylanwadu ar amrywiaeth o newidiadau i agweddau ar ei waith.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r coleg yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn. Caiff y profiadau dysgu a gynigir gan y coleg effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Maent yn paratoi disgyblion yn arbennig o dda i symud ymlaen i gam nesaf addysg neu i waith.

Mae'r rhaglenni Diploma a Rhag-Ddiploma Atlantic hynod arloesol yn rhoi cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth ysgogol o gyrsiau academaidd a gweithgareddau dysgu trwy brofiad. Er enghraifft, mae'r cwrs safbwyntiau byd-eang ar gyfer disgyblion y rhag-ddiploma yn cyfrannu'n arbennig o effeithiol at eu dealltwriaeth o amrywiaeth eang o faterion cyfoes, diwylliannol, gwleidyddol, amgylcheddol a moesegol.

Mae'r profiadau hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, gwaith tîm ac arwain, a magu hunanhyder. Maent yn paratoi disgyblion yn dda i ennill cymwysterau TGAU Rhyngwladol perthnasol a chyflawni Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol.

Mae trefniadau i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r dull hwn yn integreiddio'n dda â phwyslais cryf y coleg ar hybu medrau ehangach disgyblion, gan gynnwys datrys problemau, ymchwil annibynnol a hunanfyfyrio. Mae'r coleg yn dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus, er enghraifft trwy roi cyfleoedd i ddisgyblion astudio amrywiaeth eang o ieithoedd.

Caiff disgyblion gyfleoedd niferus i gychwyn, arwain a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brosiectau datblygu lleol a byd-eang. Mae'r prosiectau hyn yn ymgorffori gweledigaeth y coleg, sef y dylai disgyblion 'gael eu grymuso i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein byd'. Mae'r rhaglen eithriadol o gynadleddau, sy'n mynd i'r afael â materion fel cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a heddwch, yn helpu disgyblion i ennill ymwybyddiaeth dda o faterion cymdeithasol a byd-eang pwysig.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd uchel yr addysgu yn cyfrannu'n arbennig o dda at gynnydd a chyflawniad disgyblion. Caiff ei nodweddu gan arbenigedd cadarn athrawon yn eu pwnc, eu profiad helaeth, er enghraifft wrth gyflwyno Rhaglen Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol, a'r parch a'r berthynas waith adeiladol rhwng athrawon a disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn amlinellu amcanion dysgu yn glir ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau heriol ac yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu helpu i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau a materion newydd ac i ddatblygu eu medrau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn modelu iaith yn fedrus ac yn talu sylw arbennig i ddatblygu geirfa penodol i bwnc a geirfa ehangach disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion weithio mewn parau neu grwpiau bychain i fynegi eu barn a'u safbwyntiau, a datblygu eu medrau cyfathrebu. Mae pwyslais cryf ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu.

Mewn ychydig ddosbarthiadau, lle y mae'r addysgu'n arbennig o effeithiol, mae esboniadau manwl a defnyddio holi craff yn annog disgyblion i feddwl yn ddwfn, llunio cysylltiadau â dysgu blaenorol ac ymestyn eu dealltwriaeth. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio'u gwybodaeth am alluoedd disgyblion yn dda i hwyluso trefniadau defnyddiol ar gyfer cymorth cymheiriaid.

Mewn ychydig wersi, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n bodloni anghenion disgyblion o wahanol alluoedd yn ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd lleiafrif o ddisgyblion yn y gwersi hyn.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar adeiladol yn ystod gwersi, sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd. Mae pwyslais cynyddol ar roi adborth ysgrifenedig clir i ddisgyblion sy'n dangos beth maent yn ei wneud yn dda a sut gallant wella ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, mae gormod o anghysondeb o ran ansawdd yr adborth ysgrifenedig a pha mor rheolaidd y caiff ei roi, ac o ran sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'r cyngor a gânt.

Mae trefniadau addas i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn helpu staff i nodi'r disgyblion hynny nad ydynt yn perfformio yn unol â'u galluoedd a darparu cymorth targedig ychwanegol lle bo'r angen.

Mae adroddiadau mynych i rieni'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gyflawniad a chynnydd eu plentyn. Mae mwyafrif yr adroddiadau'n cynnwys strategaethau clir ar gyfer gwella, sy'n benodol i bwnc.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r trefniadau cynhwysfawr ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad y mae'r coleg yn eu darparu i ddisgyblion yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at eu lles, eu mwynhad wrth ddysgu a'u cyflawniad. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ynghylch ymddygiad disgyblion a'u diddordeb mewn dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn nodwedd gadarn o waith y coleg. Mae'r agwedd hon ar y ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi'n sylweddol gan amrywiaeth gyfoethog y boblogaeth disgyblion a'r profiadau personol unigol y daw disgyblion â nhw i fywyd y coleg. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd buddiol i fyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain a rhai disgyblion eraill, er enghraifft yn ystod 'nosweithiau rhyngwladol' a chynadleddau wythnos y diploma. Mae'r rhain yn helpu disgyblion i ddangos pryder a pharch tuag at bobl eraill, a datblygu'n gyfranwyr aeddfed a chyfrifol at gymdeithas, yn arbennig o effeithiol.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi ystod helaeth o wybodaeth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ennill medrau bywyd buddiol, gan gynnwys hunanymwybyddiaeth a hunanhyder, a datblygu agweddau cadarnhaol at eu hiechyd a'u lles personol. Mae trefniadau pontio cefnogol i ddisgyblion, pan fyddant yn ymuno â'r coleg a phan fyddant yn symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg. Yn benodol, mae staff a gweithwyr proffesiynol allanol yn rhoi cefnogaeth o safon uchel i ddisgyblion pan fyddant yn gwneud dewisiadau ynghylch eu cyrsiau ôl-16 neu eu ceisiadau i'r brifysgol.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i gynnig cefnogaeth effeithiol ar gyfer cynnydd academaidd a lles disgyblion. Mae gweithdrefnau priodol i nodi a monitro disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Er bod athrawon yn gwybod am anghenion y disgyblion hyn, nid ydynt bob amser yn eu hystyried yn ddigonol wrth gynllunio dysgu. Nid yw'r coleg yn dadansoddi effaith ei raglenni cymorth yn ddigonol ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae'r coleg yn gorff cynhwysol tu hwnt gydag ethos eithriadol o deulu rhyngwladol, yn seiliedig ar 'ddynoliaeth gyffredin'. Mae'n arbennig o lwyddiannus yn ymgorffori cenhadaeth United World College i 'uno pobl, cenhedloedd a diwylliannau er heddwch a dyfodol cynaliadwy'.

Mae amrywiaeth helaeth y boblogaeth disgyblion yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i archwilio a dathlu gwahaniaethau diwylliannol. Mae pwyslais cryf ar ddangos parch tuag at arferion, barn a safbwyntiau pobl eraill, a'u deall. Caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu rôl mewn cymdeithas a sut gall eu gweithredoedd effeithio ar fywyd pobl eraill a'i drawsnewid. Mae'r egwyddorion hyn wrth wraidd pob agwedd ar fywyd y

coleg, ond yn bennaf oll y profiadau dysgu a'r trefniadau i feithrin lles disgyblion. Mae awyrgylch cadarnhaol a phwrpasol o amgylch y coleg, wedi'i nodweddu gan lefelau uchel o barch rhwng staff a disgyblion.

Mewn sawl maes o'i waith, mae'r amgylchedd ffisegol ysgogol a'r safle deniadol yn ehangu profiadau dysgu. Mae'r llety a'r tir yn cael eu cynnal a chadw'n dda ar y cyfan. Er eu bod yn addas at eu diben, mae ychydig o ardaloedd y coleg yn llai deniadol ac nid ydynt yn elwa'n ddigonol o arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau disgyblion ac yn hybu dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro a'r uwch arweinwyr yn cynnig cyfeiriad clir, gan hybu ethos a chenhadaeth United World College yn dda; mae'r rhain yn treiddio i bob agwedd ar fywyd y coleg. Mae'r uwch arweinwyr hyn yn esiamplau cadarn o werthoedd a nodau'r coleg, ac yn eu cyfleu yn hynod effeithiol i bob aelod o gymuned y coleg. Mae'r ethos a'r diben cyffredin yn dylanwadu ar bob agwedd ar waith y coleg ac yn cyfrannu'n dda at y deilliannau eithriadol sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion, a'u lefelau uchel o les.

Mae'r pennaeth dros dro yn cynnig arweinyddiaeth craff a threiddgar sydd wedi helpu i sicrhau sefydlogrwydd a chefnogi datblygiad llwyddiannus a chynnydd parhaus y coleg.

Mae rolau a chyfrifoldebau arwain wedi'u hamlinellu'n glir, gyda ffocws cyson ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r ystod gynhwysfawr o bolisïau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, a rhaglen strwythuredig o gyfarfodydd tîm, yn helpu arweinwyr i gyfleu disgwyliadau'n glir i staff a sicrhau bod y coleg yn gweithredu'n effeithlon.

Mae bron pob un o'r arweinwyr canol yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn briodol. Trwy drefniadau rheoli llinell mwyfwy ffurfiol, mae'r arweinwyr hyn yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol am berfformiad eu timau perthnasol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn datblygu'n dda. Rhoddant lefel addas o atebolrwydd ac yn helpu i amlygu anghenion datblygiad proffesiynol priodol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cyfadrannau yn bennaf, yn ogystal â dyheadau staff.

Mae'r corff llywodraethol yn monitro pob agwedd ar waith y coleg yn fanwl. Mae'n wybodus ynghylch cryfderau'r coleg a'i feysydd i'w datblygu. Mae aelodau'r corff yn ymroddedig iawn i genhadaeth arbennig United World College ac yn hybu gweledigaeth glir ar gyfer y coleg. Ynghyd â'r tîm arwain, mae'r corff llywodraethol wedi nodi nodau ac uchelgeisiau addas sy'n ystyriol o ddisgyblion presennol a disgyblion y dyfodol. Mae llywodraethwyr yn cynnig lefelau effeithiol o graffu, cymorth a her i'r pennaeth dros dro a'r tîm arwain, ac yn cynnig arweiniad ac arbenigedd gwerthfawr, er enghraifft gyda materion cyfreithiol.

Mae'r coleg yn cydymffurfio â holl Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y coleg brosesau addas i arfarnu effeithiolrwydd ei waith a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol mewn cryfhau trefniadau hunanarfarnu yn y coleg.

Mae trefniadau hunanarfarnu'n cynnig adolygiad ac arfarniad cadarn o holl feysydd gwaith y coleg. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth sy'n cynnwys dadansoddiadau defnyddiol o berfformiad, gan nodi meincnodau cenedlaethol, rhyngwladol a meincnodau teulu United World College yn arbennig. Mae pwyslais cynyddol ar ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwadau gwersi ac adolygiadau allanol. Mae'r ffocws ar ymgynghori â disgyblion a cheisio barn staff a rhieni yn gryfder arbennig. Mae'r adroddiad hunanarfarnu'n arfarnol i raddau helaeth. Mae'n nodi meysydd penodol o gryfder ac yn dangos blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella.

Mae'r cynllun strategol (2012-2017) yn ddogfen lefel uchel sy'n adlewyrchu cenhadaeth United World College yn dda. Mae'r cynllun yn amlinellu amcanion strategol clir sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu gwerthoedd craidd cynhenid y genhadaeth honno. Mae'r cynllun strategol yn cynnig fframwaith cyffredinol, defnyddiol sy'n ategu trefniadau cynllunio tymor byr, mwy ymatebol, y coleg.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r coleg wedi rhoi mentrau cwricwlaidd mawr ar waith yn llwyddiannus, sydd wedi cael effaith sylweddol ar brofiadau dysgu disgyblion. Mae'r cynlluniau cwricwlaidd a bugeiliol presennol yn cyd-fynd yn dda â'r canfyddiadau yn yr adroddiad hunanarfarnu. Amlinellant brif weithrediadau defnyddiol, maent yn cynnwys amserlenni bras ac yn nodi enw'r staff cyfrifol. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion yn y cynlluniau tymor hwy hyn am gostau mynegol a meini prawf llwyddiant mesuradwy priodol. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwella cyfadrannau yn benodol a pherthnasol i'w maes cwricwlwm penodol. Dim ond ychydig gynlluniau cyfadrannau sy'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r coleg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae ymagwedd y coleg at ddatblygu partneriaethau cydweithredol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn lleol ac yn fyd-eang, yn eithriadol. Mae'r partneriaethau hyn yn nodwedd annatod o fynd i'r afael â chenhadaeth a nodau'r coleg. Maent yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad medrau a phrofiadau disgyblion a staff.

Mae disgyblion yn chwarae rhan hynod ddylanwadol wrth nodi, cychwyn a threfnu llawer o'r gweithgareddau partneriaeth helaeth hyn. Er enghraifft, mae prosiectau 'Cer i wneud gwahaniaeth' (GoMAD) wedi cynnwys mentrau cynaliadwy fel plannu coed yn Nepal, gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus ag ysgolion lleol i gefnogi datblygiad llythrennedd disgyblion ac addysgu Saesneg i ffoaduriaid yng Nghaerdydd.

Mae llawer o ddisgyblion a staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arddangos eu hymrwymiad cadarn i wasanaethu cymunedau lleol a rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys mentrau fel 'Bad achub mewn bocs' i hyfforddi gwirfoddolwyr

a chynorthwyo ag achub bywydau yn dilyn tswnamïau, a'r cyfraniad helaeth a wna disgyblion a staff at uned Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Bad Achub ar gyfer achub bywydau ar y traeth.

Mae partneriaethau â rhieni a chyn-ddisgyblion yn arbennig o gadarn. Maent yn ehangu'n sylweddol y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i ddisgyblion, er enghraifft trwy gyfrannu at y rhaglen ddarlithoedd wythnosol a mentora disgyblion wrth ystyried gyrfaoedd yn y dyfodol, ac wrth wneud cais i brifysgolion. Bu'r coleg yn arbennig o lwyddiannus wrth weithio gyda rhieni a chyn-ddisgyblion i godi symiau sylweddol o arian sydd wedi helpu i ddarparu ysgoloriaethau targedig. Mae'r ysgoloriaethau hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion o gefndiroedd amrywiol tu hwnt i fynychu UWC Atlantic College. Mae'r dull hwn yn mynd i'r afael â chenhadaeth yr UWC yn effeithiol iawn.

Mae'r coleg yn gweithio'n agos ag ysgolion eraill yn nheulu United World College, er enghraifft i hybu arfer orau a chefnogi rhaglenni cyfnewid.

Mae'r partneriaethau hyn yn gwneud cyfraniad eithriadol at ddatblygiad personol disgyblion ac yn eu paratoi'n arbennig o dda ar gyfer cyfleoedd addysg a gyrfa yn y dyfodol.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau yn effeithlon. Mae staff yn gymwys iawn ac mae'r coleg yn defnyddio'u profiad a'u harbenigedd yn dda i gyflwyno'r cwricwlwm a thrwy'r cyfraniad sylweddol a wnânt at fywyd bugeiliol a chyd-gwricwlaidd.

Caiff anghenion hyfforddi pob aelod staff eu nodi'n briodol trwy drefniadau rheoli perfformiad. Mae staff yn elwa o amrywiaeth ddefnyddiol o weithgareddau datblygiad proffesiynol, yn enwedig drwy'r cynadleddau rheolaidd i staff sy'n cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau gwella'r coleg neu gyfadrannau.

Mae arweinwyr yn rheoli a monitro adnoddau eraill y coleg yn drylwyr i sicrhau lefelau addas o effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd. Mae gan y pennaeth dros dro, cyfrifydd y coleg a'r corff llywodraethol drosolwg cadarn o'r trefniadau ariannol. Caiff penderfyniadau gwariant eu cyfeirio tuag at fynd i'r afael â blaenoriaethau'r coleg a'u monitro'n fanwl.

Mae'r coleg yn gwneud defnydd eithriadol o dda o'i adnoddau i gyflawni deilliannau rhagorol a lefelau uchel o les i'w ddisgyblion, ac mae'n cynnig gwerth am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 61 | 35 | 25 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 57% | 41% | 2% | 0% | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | |
| The school deals well with any bullying | 60 | 26 | 30 | 4 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 43% | 50% | 7% | 0% | |
| | | 38% | 50% | 10% | 1% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 61 | 40 | 20 | 1 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 66% | 33% | 2% | 0% | |
| | | 43% | 48% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 61 | 16 | 38 | 5 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 26% | 62% | 8% | 3% | |
| | | 26% | 57% | 15% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 59 | 37 | 16 | 6 | 0 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 63% | 27% | 10% | 0% | |
| | | 53% | 36% | 8% | 2% | |
| I am doing well at school | 59 | 18 | 35 | 4 | 2 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 31% | 59% | 7% | 3% | |
| | | 35% | 60% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 60 | 17 | 39 | 4 | 0 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 28% | 65% | 7% | 0% | |
| | | 49% | 46% | 4% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 57 | 20 | 30 | 6 | 1 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 35% | 53% | 11% | 2% | |
| | | 29% | 54% | 13% | 4% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 61 | 35 | 23 | 3 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 57% | 38% | 5% | 0% | |
| | | 50% | 42% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 59 | 25 | 26 | 6 | 2 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 42% | 44% | 10% | 3% | |
| | | 26% | 59% | 13% | 3% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 60 | 25 | 26 | 8 | 1 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 42% | 43% | 13% | 2% | |
| | | 36% | 47% | 13% | 4% | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 57 | 14<br>25%<br>18% | 24<br>42%<br>54% | 13<br>23%<br>22% | 6<br>11%<br>6% | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 61 | 37<br>61%<br>47% | 23<br>38%<br>48% | 1<br>2%<br>4% | 0<br>0%<br>0% | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 60 | 38<br>63%<br>44% | 22<br>37%<br>46% | 0<br>0%<br>8% | 0<br>0%<br>2% | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| The staff respect me and my background | 60 | 34<br>57%<br>47% | 26<br>43%<br>46% | 0<br>0%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 60 | 42<br>70%<br>46% | 18<br>30%<br>48% | 0<br>0%<br>6% | 0<br>0%<br>1% | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 19 | 6<br>32%<br>29% | 13<br>68%<br>49% | 0<br>0%<br>17% | 0<br>0%<br>6% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 36 | 13<br>36%<br>34% | 18<br>50%<br>48% | 5<br>14%<br>14% | 0<br>0%<br>4% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 118 | 72 | 46 | 0 | 0 | 10 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 32% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 124 | 89 | 35 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 2% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 124 | 86 | 36 | 2 | 0 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 29% | 2% | 0% | | |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 101 | 52 | 44 | 5 | 0 | 26 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 51% | 44% | 5% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 93 | 29 | 61 | 3 | 0 | 33 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 31% | 66% | 3% | 0% | | |
| | | 55% | 41% | 3% | 1% | | |
| Teaching is good. | 102 | 38 | 57 | 7 | 0 | 22 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 37% | 56% | 7% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 3% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 111 | 69 | 40 | 2 | 0 | 12 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 74 | 35 | 38 | 1 | 0 | 50 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 51% | 1% | 0% | | |
| | | 57% | 39% | 3% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 99 | 51 | 42 | 6 | 0 | 25 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 52% | 42% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 33% | 5% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 105 | 52 | 43 | 8 | 2 | 18 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |
| | | 60% | 36% | 3% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 118 | 61 | 56 | 0 | 1 | 4 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 52% | 47% | 0% | 1% | | |
| | | 69% | 30% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 103 | 47 | 52 | 4 | 0 | 18 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 46% | 50% | 4% | 0% | | |
| | | 57% | 36% | 5% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 111 | 32<br>29% | 63<br>57% | 14<br>13% | 2<br>2% | 12 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 55% | 37% | 7% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 122 | 60<br>49% | 57<br>47% | 4<br>3% | 1<br>1% | 3 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 65% | 28% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 100 | 34<br>34% | 58<br>58% | 8<br>8% | 0<br>0% | 25 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 50% | 42% | 7% | 1% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 119 | 86<br>72% | 32<br>27% | 1<br>1% | 0<br>0% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 66% | 31% | 3% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 96 | 66<br>69% | 25<br>26% | 4<br>4% | 1<br>1% | 26 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 58% | 36% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 118 | 73<br>62% | 43<br>36% | 2<br>2% | 0<br>0% | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 33% | 5% | 1% | | |
| The school makes good provision for its boarders and residential pupils. (where applicable) | 109 | 53<br>49% | 48<br>44% | 5<br>5% | 3<br>3% | 15 | Mae’r ysgol yn trefnu darpariaeth dda ar gyfer lletywyr a disgyblion preswyl (lle bo’n berthnasol) |
| | | 59% | 38% | 2% | 1% | | |
| The school is well run. | 113 | 55<br>49% | 54<br>48% | 4<br>4% | 0<br>0% | 9 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| John Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Michelle Gosney | Arolygydd Tîm |
| Karen Newby-Jones | Arolygydd Tîm |
| Paul Norton | Arolygydd Cymheiriaid |
| Paul Scudamore | Arolygydd Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) |
| Nick Lush | Enewebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Perchennog | Mae'r term 'perchennog', fel y'i diffinnir yn Neddf Addysg 1996, yn golygu'r unigolyn neu'r bobl sy'n gyfrifol am reoli ysgol annibynnol a gall gynnwys unig berchennog, cyrff llywodraethol, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr. Mae'r ffyrdd y caiff ysgolion annibynnol eu llywodraethu a'u perchnogi yn amrywio'n fawr. Gallai perchennog neu ymddiriedolaeth fod yn berchen ar ysgol, neu gallai'r ysgol gael corff llywodraethol sy'n penodi pennaeth. Mae cyfuniad o'r rhain mewn rhai ysgolion. |